# Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 30 Mawrth 2004

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 4 a 10 yn ôl.

**2.51pm**
**Datganiad Busnes**
Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu’r datganiad busnes.
Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 54
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.00pm**
***Ni chynhaliwyd dadl ar y cynnig hwn a chafwyd pleidlais arno’n syth***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25**
*NDM1894 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004 ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2004; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2004; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2004.

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004 ar y gorchymyn drafft, Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004 yn cael ei wneud yn unol ag:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2004; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.01pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954, Rhan 2 (Hysbysiadau) (Cymru a Lloegr) 2004 o dan Reol Sefydlog 23.10**
*NDM1898 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10:
Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954, Rhan 2 (Hysbysiadau) 2004, y rhoddwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mawrth 2004, ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.02pm**
***Cynnig i drafod y 4 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân:***
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) 2004**
*NDM1905 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) 2004 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

*NDM1906 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2004 mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mawrth 2004; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004**
*NDM1903 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

*NDM1904 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2004 mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mawrth 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol etc) (Presgripsiynau Amlroddadwy) (Diwygio) (Cymru) 2004**
*NDM1909 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol etc) (Presgripsiynau Amlroddadwy) (Diwygio) (Cymru) 2004 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 34; Ymatal 0; Yn erbyn 16; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

*NDM1910 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2004 mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol etc) (Presgripsiynau Amlroddadwy) (Diwygio) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol etc) (Presgripsiynau Amlroddadwy) (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2004; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 15; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2004 o dan Reol Sefydlog 22.27(iv)**
*NDM1907 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2004 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

*NDM1908 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau wedi'i osod mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) a (iii).*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**3.22pm**
***Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân:***
**Cynnig Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2004**
*NDM1899 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2004.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod nad yw'r terfyn arfaethedig newydd o £20,500 yn adlewyrchu'n ddigonol werth cartrefi yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i ymchwilio i'r mater hwn.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 17; Ymatal 6; Yn erbyn 29; Cyfanswm 52
**Syrthiodd y gwelliant i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

*NDM1900 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004, mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2004; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2004.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); Mike German (Dwyrain De Cymru); Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n penderfynu gwneud y gwelliannau a ganlyn i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2004 y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2004.

Dileu:

(2) Yn rheoliad 20 (Terfyn cyfalaf), yn lle'r ffigur "£20,000"(a), rhodder y ffigur "£20,500".

(3) Yn rheoliad 28(1) (Cyfrifo incwm tariff o'r cyfalaf), yn lle'r ffigur "£12,250"(b), lle mae'n ymddangos, rhodder y ffigur "£13,500" ac yn lle'r ffigur "£20,000"(c), rhodder y ffigur "£20,500".

A rhoi yn ei le:

(2) Yn rheoliad 20 (Terfyn cyfalaf), yn lle'r ffigur "£20,000", rhodder y ffigur "£60,000".

(3) Yn rheoliad 28(1) (Cyfrifo incwm tariff o'r cyfalaf), yn lle'r ffigur "£12,250", lle mae'n ymddangos, rhodder y ffigur "£13,500" ac yn lle'r ffigur "£20,000", rhodder y ffigur "£60,000".

Cyflwynwyd y Datganiad hwn o’r Diben a’r Costau law yn llaw â’r gwelliant uchod i’r Gorchymyn:

**Datganiad yn unol â Rheol Sefydlog 22.16 (ii)**

**Diben**
Diben y gwelliant yw estyn darpariaeth gofal personol am ddim ymhellach i’r rhai sydd ei angen drwy godi’r terfyn cyfalaf uchaf. Y tu hwnt i’r terfyn hwnnw, gall y cynghorau orfodi pobl i werthu eu cartrefi i dalu am eu gofal.

**Costau**
Cost y gwelliant arfaethedig yw £24 miliwn. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith bod pob £1,000 o gynnydd yn y terfyn cyfalaf uchaf yn costio £600,000 i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfrifwyd y ffigurau hyn ar sail gwaith costio a wnaed eisoes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant i’r Rheoliadau**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 51
**Syrthiodd y gwelliant i’r Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 6; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2004**
*NDM1901 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2004 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

*NDM1902 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004, mewn perthynas â’r rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2004; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

***Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân:***
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004**
*NDM1913 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

*NDM1914 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004 mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2004; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 51 ; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004**
*NDM1911 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

*NDM1912 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004 mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2004;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2004; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**3.53pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn y Cyngor Datblygu Llaeth (Diwygio) 2004 o dan Reol Sefydlog 23.10**
*NDM1897 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10:
Yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft, Gorchymyn y Cyngor Datblygu Llaeth (Diwygio) 2004, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2004, ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.55pm**
**Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Nyrsio mewn Llety Preswyl) (Cymru) 2004 o dan Reol Sefydlog 27**
*NDM1895 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2(iii):
Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Nyrsio mewn Llety Preswyl) (Cymru) 2004, y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Cyfarwyddiadau**

O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd egwyddor y Cyfarwyddiadau**

*NDM1896 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2(iii):
Yn cymeradwyo Cyfarwyddiadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Nyrsio mewn Llety Preswyl) (Cymru) 2004 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cyfarwyddiadau**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y Cyfarwyddiadau**

**3.59pm**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i'r Prif Weinidog**
*NDM1893 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn Rhan 6 (adrannau 40-45, 47-52, 55-56) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i Brif Weinidog y Cynulliad ac eithrio'r rhai hynny nas gellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo felly.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

Gellir dod o hyd i Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ar y Rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn:

http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2003/20030038.htm

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.00pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004**
*NDM1915 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 1)

(Cymru) 2004 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 48; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1916 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mawrth 2004 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004 yn cael ei wneud yn unol â'r gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**4.02pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol**
*NDM1917 Jonathan Morgan (Canol De Cymru)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn cydnabod cyfraniad hanfodol dosbarthiadau chweched dosbarth mewn ysgolion o ran darparu addysg ar gyfer disgyblion 16-19 oed yng Nghymru, ac yn condemnio'r bygythiad iddynt sy'n deillio o gynlluniau'r Llywodraeth i gwtogi'r cyllid a'r ddarpariaeth.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Karen Sinclair (De Clwyd);**
Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru'
A rhoi'r pwyntiau newydd canlynol yn ei le:

'1. Yn nodi'r camau y mae ELWa yn eu cymryd i uno'r ffynonellau cyllid presennol ar gyfer darpariaeth ôl-16 mewn system gynllunio a chyllido genedlaethol gydlynol fel yr amlinellir yn argymhellion ETAP a gefnogwyd gan y cyn Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl-16 ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Chwefror 2000;

2. Yn cymeradwyo'r cynnydd gwirioneddol yn y cyllid sydd ar gael i AALl ar gyfer darpariaeth dosbarthiadau chweched dosbarth ers i ELWa gymryd cyfrifoldeb am y cyllid ym mis Ebrill 2002;

3. Yn croesawu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu rhwng ysgolion a cholegau yng Nghymru; a

4. Yn ailddatgan y camau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i sicrhau y darperir addysg ôl-16 mewn ffordd sy'n rhoi anghenion dysgwyr yng Nghymru yn gyntaf.'

Gellir gweld argymhellion ETAP yn:

http://www.basic-skills-observatory.co.uk/uploads/doc_uploads/217.pdf .

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ôl 'dosbarthiadau chweched dosbarth' yn llinell 1:
", darparwyr dysgu ym myd gwaith a cholegau addysg bellach"

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Dileu '18' ac ychwanegu '19'.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl 'ac yn condemnio'r' ac yn ei le rhoi:
'ffordd y mae ELWa wedi camdrafod y sefyllfa hon ac yn cydnabod bod lefel y cyllid y mae ELWa yn ei gynnig ar hyn o bryd yn fygythiad i bob darparwr.'

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu bod penderfyniadau ynghylch trefniadaeth dosbarthiadau chweched dosbarth yn fater i awdurdodau lleol sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd ac sy'n atebol ac yn cyfarwyddo Llywodraeth Lafur y Cynulliad i roi'r gorau i'w chynnig i ganiatáu i ELWa gau neu ad-drefnu dosbarthiadau chweched dosbarth o'r fath.

**Gwellaint 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod pwysigrwydd dosbarthiadau chweched dosbarth mewn ysgolion yn y ddarpariaeth o addysg i bobl ifanc rhwng 16 ac 19 mlwydd oed drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i gyfarwyddo ELWa y dylai costau chwyddiant ar gyfer adnoddau ynghyd â chostau staff gael eu cynnwys yn y gost uned.

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnal a'i datblygu gan holl ddarparwyr Addysg ôl-16.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y Gwelliant 1**

**Syrthiodd gwelliant 2**

**Syrthiodd gwelliant 3**

**Syrthiodd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 25; Ymatal 1; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 8**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.09pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 31 Mawrth 2004**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 26 Mawrth 2004**

- Adroddiad y Pwyllgor Archwilio: Taliadau Diweddar i Ffermwyr yng Nghymru - LD2852

**Dogfennau a Osodwyd ar 24 Mawrth 2004**

- Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2004 Memorandwm Cywiriadau - LD2842
- Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 13) (Cymru) 2004 - LD2843
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2844
- Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2004 - LD2845
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) ac Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2846
- Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2004 - LD2847
- The Agricultural Holdings (Units of Production) (Wales) Order 2004 - Regulatory Appraisal - LD2848 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael
- Adroddiad Cyntaf Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon - Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru: Adolygiad - LD2849
- Adroddiad y Pwyllgor Busnes - LD2850
- Adroddiad y Pwyllgor Busnes - LD2850 Annex A
- Adroddiad y Pwyllgor Busnes - LD2850 Annex B
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2003 - LD2851